**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am Werth am Arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac rydym y cynnig yr 18 o argymhellion sydd ynddo.

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r diwydiant i ddeall ei anghenion a sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir am y prosiectau cefnffyrdd sydd ar y gweill yn gywir ac yn gyfredol.

Derbyniwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen dreigl o ddigwyddiadau chwe-misol i gyflenwyr er mwyn sicrhau bod cadwyn gyflenwi'r diwydiant adeiladu yn cael gwybodaeth gywir a chyfoes am y prosiectau sydd ar y gweill ym maes trafnidiaeth. Bydd y digwyddiadau hyn i gyflenwyr yn cael eu defnyddio er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau caffael ac er mewn cael adborth am yr arferion a fydd ohoni ar y pryd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff cynrychiadol megis Cymdeithas y Contractwyr Peirianneg Sifil a Chymdeithas y Peirianwyr Ymgynghorol.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr wedi'i blaenoriaethu'n glir o'r holl brosiectau cefnffyrdd, gyda dyddiadau dangosol. Dylai'r rhestr hon gynnwys gwybodaeth am statws cyfredol prosiectau a dylid ei diweddaru'n rheolaidd, gan roi rhesymau dros unrhyw newid mewn statws a blaenoriaeth.

Derbyniwyd. Mae Amserlen Gyflenwi yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol sy'n adlewyrchu'r rhagdybiaethau cyfredol am y proffil cyflenwi ar gyfer pob cynllun. Nodir ar yr Amserlen y gallai'r proffiliau hynny newid, gan gydnabod bod yn rhaid i brosesau statudol gael eu cwblhau a bod angen ymateb wrth i amgylchiadau newid. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfnod cyflenwi a flwyddynolwyd ar gyfer pob un o'r pum mlynedd gyntaf. Bydd yr amserlen gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd wrth i'r proffil cyflenwi ar gyfer cynlluniau penodol ddod yn gliriach.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion cwmpas, dull gweithredu ac amserlen yr adolygiad o'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), gan gynnwys y dull ymgynghori, ac yn cyhoeddi canlyniad yr adolygiad ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Derbyniwyd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad trwyadl o'r holl feysydd yr ymdrinnir â nhw yn yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, a hynny yng ngoleuni'r profiadau a gafwyd wrth ei ddefnyddio er 2008, yng ngoleuni canllawiau ategol yr Adran Drafnidiaeth (a elwir bellach yn WebTAG 2), y llyfr Aqua a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Drysorlys EM, a'r gwaith sydd ar fin cael ei wneud i ddiwygio Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Drwy wneud hynny, bydd modd sicrhau bod y canllawiau'n amlinellu proses drylwyr ar gyfer arfarnu a gwerthuso ymyriadau ym maes trafnidiaeth, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ansoddol a meintiol o effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Bydd y canllawiau drafft yn barod erbyn diwedd 2015 a bwriedir ymgynghori yn eu cylch yn ystod 2016.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad i ddeall y ffactorau sy'n arwain at orwario ar brosiectau gwerth is ac yn ystyried a all Cynnwys Contractwr ar Gam Cynnar, neu egwyddorion y model hwn, wella perfformiad prosiectau sy'n werth llai na £18 miliwn.

Derbyniwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad llawn o gontractau adeiladu is eu gwerth er mwyn ystyried cyfleoedd i wneud y defnydd gorau posibl o egwyddorion Cynnwys Contractwr ar Gam Cynnar. Caiff yr adolygiad hwnnw ei gwblhau erbyn diwedd 2015 a, lle bo hynny'n briodol, bydd y canllawiau ar weithdrefnau ffyrdd yn cael eu diweddaru.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i bob llwybr posibl i wella ymgysylltiad ag ymgymerwyr statudol, gan gynnwys offer deddfwriaethol ac ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref ar y cynnydd o ran ei gwaith yn y maes hwn.

Derbyniwyd. Ymdrinnir â ffyrdd o fynd ati i gyflawni cynlluniau yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004. Un o'r prif rwystrau sy'n llesteirio'r broses o gydgysylltu'n llwyddiannus yw methiant rhai o'r awdurdodau priffyrdd i gyhoeddi hysbysiadau am waith y maen nhw eu hunain yn ei wneud. Mae hwn yn fater yr ydym yn mynd i'r afael ag ef ac mae Llywodraeth Cymru yn annog pob awdurdod priffyrdd lleol i gyhoeddi hysbysiadau am waith y maen nhw eu hunain yn ei wneud. Nodir hynny yn y strategaeth ddrafft ar waith stryd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bob awdurdod priffyrdd i'w gyfarwyddo i wneud hynny ac i gydymffurfio â'r Ddeddf Rheoli Traffig erbyn diwedd mis Medi. Mae unrhyw waith yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd cydgysylltu rhanbarthol ac, at ei gilydd, mae niferoedd da yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd eraill o wella'r modd y mae gwaith yn cael ei gydgysylltu, er enghraifft, gwefannau. Yn achos prosiectau mawr, mae gan y cyfleustodau gynlluniau 5 mlynedd ac maen nhw eisoes yn cyflwyno hysbysiadau blaengynllunio fel y bo'r cynlluniau hynny'n cael eu nodi yn y drefn gydgysylltu. Yn y dyfodol a lle y bo modd, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno hysbysiadau blaengynllunio er mwyn tynnu sylw'r cyfleustodau at gynlluniau arfaethedig. Bydd y pwyllgor yn cael adroddiad yn yr hydref am hynt y gwaith yn hyn o beth.

**Argymhelliad 6**
Rydym yn pryderu nad yw'r cydbwysedd presennol rhwng gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw adweithiol yn briodol, ac yn nodi sylwadau Asiant Cefnffyrdd De Cymru ynghylch effaith cyfyngiadau ariannol ar y dirywiad yng nghyflwr y rhwydwaith ffyrdd a'r ffaith bod nifer yr atgyweiriadau heb eu cynllunio yn arwain at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn
argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y rhesymau dros y dirywiad diweddar yn y rhwydwaith cefnffyrdd ac yn cyhoeddi cynllun i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwrthdroi'r dirywiad hwn o fewn cyfnod penodol o amser.

Derbyniwyd. Mae swyddogion yn mynd ati'n barhaus i i fonitro cyflwr y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, gan wneud hynny drwy raglen flynyddol o arolygon ac archwiliadau o'u cyflwr. Caiff y data hyn eu defnyddio i nodi pa rannau o'r rhwydwaith y mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt ac i ganfod beth sydd wedi achosi iddynt ddirywio. Eir ati wedyn ar sail y data i ddatblygu blaenraglen waith er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o sicrhau nad oes angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar fwy nag 8% o'r rhwydwaith. Mae'r rhaglen cynnal a chadw ar gyfer 2015/16 yn mynd rhagddi ar hyn o bryd a bydd y rhaglen ar gyfer 2016/17 ar ei gwedd derfynol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 7**
Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth baratoi'r cynllun a argymhellir uchod, y dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni cydbwysedd effeithiol rhwng gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw adweithiol, a rhwng prosiectau mawr (ffyrdd newydd neu welliannau mawr) a gwaith cynnal a chadw ar gefnffyrdd presennol, yn y dyfodol.

Derbyniwyd. Er mwyn cynorthwyo i nodi a blaenoriaethu gwelliannau i'r ffyrdd yn y dyfodol, byddwn yn nodi safonau gwasanaeth a pherfformiad ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd, a hynny ar sail dull coridor, a byddwn yn datblygu maen prawf a fydd yn ystyried costau'r rhwydwaith ar hyd ei oed. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2016.

**Argymhelliad 8**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau cysondeb rhwng polisïau Asiantiaid Cefnffyrdd y Gogledd a'r De.

Derbyniwyd. Mae swyddogion yn gweithio eisoes ar ddatblygu polisïau ar gyfer Cymru gyfan. Y prif nod yw paratoi dogfennau ar gyfer Cymru gyfan erbyn diwedd 2016/17. Lle y bo hynny'n briodol, bydd amrywiadau lleol yn y dogfennau hynny er mwyn mynd i'r afael â materion penodol. Mae cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan yn cael eu paratoi er mwyn i'r asiantiaid cefnffyrdd eu defnyddio wrth gaffael gwasanaethau eu cyflenwyr. Bydd y cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

**Argymhelliad 9**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r adolygiad parhaus o Asiantiaid Cefnffyrdd, ystyried manteision ac anfanteision sefydlu un Asiant Cefnffyrdd ac a allai hyn ddarparu dull mwy cyson o gyflawni swyddogaethau ledled Cymru a gwell gwerth am arian.

Derbyniwyd. Mae model cyflenwi ac ynddo un Asiant Cefnffyrdd yn un o'r opsiynau sy'n cael ei ystyried yn yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd o'r Asiantiaid Cefnffyrdd. Bwriedir cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad hwnnw yn ystod hydref 2015.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod atebolrwydd ar gyfer cynllunio a chyflawni mân gynlluniau gwella drwy Asiantiaid Cefnffyrdd a'u hawdurdod lleol a phartneriaid sefydliadol eraill yn cael ei egluro ac y rhoddir cyhoeddusrwydd i hynny er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ei ddeall yn glir.

Derbyniwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ynghylch atebolrwydd am gynllunio a chyflawni mân gynlluniau gwella ar y cefnffyrdd. Bydd yr wybodaeth honno'n egluro cyfrifoldebau deddfwriaethol a chyfrifoldebau o ran dirprwyo, manylion cytundebau a threfniadau contractiol. Bydd yr wybodaeth honno ar gael erbyn diwedd 2015.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ystyried opsiynau ar gyfer cyfnodau cyllido tymor hwy i alluogi gwaith cynnal a chadw i gael ei gynllunio'n well fel rhan o'r adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro effeithiolrwydd y cylchoedd cyllideb pum mlynedd a ddefnyddir i gyllido Highways England.

Derbyniwyd. Bydd opsiynau ar gyfer cyfnodau cyllido hwy, ynghyd â monitro pa mor effeithiol yw'r model a ddefnyddir i gyllido Highways England, yn cael eu hystyried ar yr un pryd â'r Adolygiad o Asiantiaid Cefnffyrdd. Y nod fydd rhoi argymhellion interim ar waith o 2016/17 ymlaen. Bydd unrhyw argymhellion terfynol yn cael eu gweithredu o 2017/18 ymlaen ar ôl inni gael digon o amser i werthuso'r dull a ddefnyddir gan Highways England.

**Argymhelliad 12**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ddulliau cyllido eraill, gan gynnwys buddsoddiad preifat, mewn cynlluniau sy'n cynnig y defnydd o lonydd blaenoriaeth neu gludo nwyddau mewn ardaloedd lle ceir tagfeydd. Dylai unrhyw gynlluniau a ystyrir gan Lywodraeth Cymru fod yn amodol ar gynlluniau busnes cadarn, gan gynnwys dadansoddiad cost a budd llawn.

Derbyniwyd. O ran cludo nwyddau, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gludo mwy ar y rheilffyrdd ond mae'n cydnabod ar yr un pryd y bydd gan y ffyrdd rôl arwyddocaol o hyd o ran cludo nwyddau. Buddsoddir mewn prosiectau trafnidiaeth os bydd achos busnes cryf a chadarn ar eu cyfer a manteisir ar nifer o ffynonellau cyllid. Dyma'r ffynonellau sydd ar gael:
• Cyllidebau cyfalaf a refeniw Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru
• Cyfalaf canolog Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru
• Cyllid ar y cyd ag Adran yr Economi yn ehangach neu fenthyca ehangach gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cael benthyca'n gynnar
• Cyllid arloesol (gan gynnwys y model buddsoddi nad yw'n dosbarthu elw (NPD))
• Y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
• Y Rhaglen Datblygu Gwledig
• Ffynonellau eraill o gyllid Ewropeaidd, cyllid llywodraeth leol neu gyllid gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus
• Galluogi llywodraeth leol i fenthyca
• Cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer agweddau ar drafnidiaeth nad ydynt wedi'u datganoli, cynghorau ymchwil, prifysgolion, y Catapult trafnidiaeth ac eraill
• Buddsoddiad gan y sector preifat, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill o gyllid
• Incwm o dir neu ddatblygiadau masnachol. Bydd pa mor berthnasol yw'r amryfal ffynonellau posibl o gyllid yn amrywio gan ddibynnu ar natur y cynllun penodol.

**Argymhelliad 13**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn yn nodi'n glir y camau sy'n weddill ar gyfer gweithredu offeryn rheoli gwybodaeth effeithiol ar gyfer prosiectau gwella cefnffyrdd, rheoli rhaglenni cynnal a chadw a monitro cyflwr y rhwydwaith. Dylai hyn gynnwys yr amserlen ar gyfer pob cam a'r dyddiad cau ar gyfer ei weithredu'n llawn.

Derbyniwyd yn rhannol. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i roi’r offeryn rheoli gwybodaeth y mae’n ei defnyddio ar hyn o bryd ar system rheoli gwybodaeth IRIS. Bydd yr offeryn hwnnw ar gael i’w dreialu a’i weithredu’n llawn ym mlwyddyn ariannol 2016/2017.

**Argymhelliad 14**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o allu a chymhwysedd yn y diwydiant cyfan ar draws y sector preifat a'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn amlinellu ei dull o fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd.

Derbyniwyd. Bwriedir cynnal astudiaeth fanwl o gwmnïau adeiladu yng Nghymru er mwyn nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau adeiladu. Bydd asesiad meintiol o allu’r sector ar draws pob un o’r crefftau sy’n rhan ohono yn cael ei gynnal er mwyn cymharu’r gallu sydd ar gael â’r prosiectau a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru. Bydd offeryn rhagweld anghenion o ran llafur yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) ar gyfer seilwaith mawr sy’n gysylltiedig â thrafnidiaeth ac ynni. Diben Dyfodol Adeiladu Cymru yw gwella perfformiad cwmnïau adeiladu yng Nghymru a’u gwneud yn fwy cynaliadwy. Bydd yn mynd ati i nodi’r cwmnïau hynny sy’n gysylltiedig â phrosiectau mawr yng Nghymru ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu gallu, eu capasiti a’u sylfaen sgiliau. Bydd modd cefnogi cyfleoedd i brentisiaid drwy Fwrdd Hyfforddi’r Diwydiant Adeiladu, sy’n bartner i Lywodraeth Cymru yn Dyfodol Adeiladu Cymru. Bydd y gwaith hwn wedi’i gwblhau erbyn haf 2016.

**Argymhelliad 15**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu modd o fonitro perfformiad ac adrodd ar berfformiad o ran cydgysylltu, cyfathrebu etc mewn perthynas â gwaith ffordd a rheoli digwyddiadau ar y ffyrdd er mwyn caniatáu i effeithiolrwydd y dull a fabwysiedir gael ei ddeall. Dylai hyn gynnwys adroddiadau rheolaidd ar nifer y cwynion a chyhoeddi data o'r fath yn gyhoeddus.

Derbyniwyd. Mae llawer o’r data hyn yn cael eu casglu fel mater o drefn. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhellion ynghylch cyhoeddi data ar ffurf a fydd yn addas ar gyfer y cyhoedd. Bydd y data hynny ar gael i’r cyhoedd. Bydd angen ychwanegu at y system er mwyn cyflunio’r data a bydd yr ychwanegiadau hynny’n cael eu dylunio eleni a’u gweithredu yn 2016/17.

**Argymhelliad 16**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sgriniau sy'n cael eu treialu ar dollfeydd yr M4 hyd Cyffordd 35, er mwyn cadw integredd safleoedd damweiniau ac atal gyrwyr rhag ceisio gweld canlyniad damwain traffig ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei llwyddiant.

Derbyniwyd. Bydd y gwaith treialu'n parhau. Ers i'r gwaith treialu ddechrau, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau lle byddai defnyddio'r sgriniau wedi bod yn fuddiol. Bwriedir treialu set o sgriniau ar yr A55 hefyd. Mae'r sgriniau ar gyfer y gwaith treialu hwnnw ar fenthyg oddi wrth Highways England ac felly, mae pa mor hir y bydd y gwaith treialu'n parhau yn dibynnu ar barhau i gael benthyg y sgriniau. Mae swyddogion yn rhagweld y bydd y gwaith treialu'n parhau am 3 mlynedd fel y bo modd casglu digon o ddata ynghylch sawl gwaith y bydd y sgriniau wedi cael eu defnyddio. Bydd adroddiad yn cael ei anfon at y pwyllgor ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 17**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â defnyddwyr ffyrdd a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli i ddeall yn well y pryderon am gyfathrebu a chydgysylltu gwaith ffordd lleol a rheoli digwyddiadau.

Derbyniwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu mwy â sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr y ffyrdd. Byddwn hefyd yn edrych ar rôl Transport Focus yn Lloegr ac yn monitro'i ganlyniadau, gan roi'r canlyniadau hynny ar waith fel y bo'n briodol, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

**Argymhelliad 18**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei chyfathrebu a'r ffordd y mae'n cydgysylltu â Highways England ynghylch gwaith ffordd a chynlluniau sy'n cael effaith ar ddwy ochr y ffin ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Derbyniwyd. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu'r berthynas sy'n bodoli eisoes rhyngddi hi a'r Adran Drafnidiaeth a Highways England er mwyn sicrhau bod fframwaith cyfathrebu effeithiol ar gyfer cydgysylltu materion trawsffiniol yn ymwneud â thrafnidiaeth. Bydd y berthynas honno'n cael ei datblygu drwy fforymau sy'n bodoli eisoes lle nad yw Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i fod yn bresennol yn aml yn ddiweddar. Bydd swyddogion yn sicrhau eu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd trawsffiniol ar gyfer ardaloedd penodol ac mewn cyfarfodydd i drafod cynlluniau penodol. Bydd unrhyw wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.